Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Brynderwen Cyf**

**Cartref Gofal Brynderwen**
**Heol Llangynnwr Llangynnwr**
**Caerfyrddin**
**SA31 2HY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

01/03/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Brynderwen

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cartref Gofal Brynderwen |
| Lleoedd cofrestredig | 32 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 15 Hydref 2021 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus ac yn gyfforddus yn byw yng nghartref gofal Brynderwen. Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda, ac yn rhyngweithio â nhw mewn ffordd hamddenol a chyfeillgar. Mae gwaith parhaus yn cael ei wneud i sicrhau bod dogfennau adolygu gofal yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol. Mae cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer y rhai sy'n dymuno. Ceir ymdeimlad cryf o waith tîm ymhlith y staff, sy'n cael eu harwain gan reolwr profiadol, uchel ei barch. Caiff y staff gofal hyfforddiant craidd a hyfforddiant arbenigol. Mae cyfarfodydd staff a sesiynau goruchwylio yn rhoi'r cyfle i'r staff gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y gwasanaeth. Mae gwiriadau cyn cyflogi yn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymwneud â'r gwaith o redeg y cartref o ddydd i ddydd ac mae'n goruchwylio'r broses er mwyn sicrhau bod yr arferion yn cyrraedd safon uchel bob amser.

Mae'r amgylchedd yn gartrefol, yn lân ac yn groesawgar. Mae cyfarpar a chyfleusterau'r cartref o ddydd yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Mae pob ardal, gan gynnwys gardd synhwyraidd newydd, yn hygyrch. Caiff gwybodaeth gyfrinachol ei storio'n ddiogel ac mae mynediad i'r gwasanaeth yn ddiogel.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch gan y gweithwyr gofal. Gwelsom hyn drwy gydol ein harolygiad, a chlywsom sgyrsiau calonogol a chydberthynas dda rhwng y bobl a'r staff. Cynhelir cyfarfodydd i breswylwyr yn rheolaidd lle gall y bobl godi materion neu wneud ceisiadau. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom bobl yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mae amseroedd bwyd yn brofiad cymdeithasol cadarnhaol sy'n cael ei rannu naill ai yn yr ystafell fwyta neu'r lolfa, neu mae rhai pobl yn dewis bwyta eu prydau yn eu hystafelloedd eu hunain. Mae gan y cartref berthynas da â pherthnasau a ddywedodd wrthym fod y gwasanaeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Gall ymwelwyr fynd i'r gwasanaeth os byddant yn dymuno.

Mae'r amgylchedd ffisegol yn cefnogi llesiant y bobl. Mae'r gwasanaeth yn lle dymunol i fyw ynddo; mae'r ystafelloedd gwely wedi eu haddurno'n hyfryd ac yn adlewyrchu chwaeth bersonol, ac mae'r bobl yn ymfalchïo mewn cael pethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r amgylchedd yn cynnig mynediad i'r bobl i ystod o ardaloedd cymunedol yn ogystal ag ardaloedd eistedd ar wahân ar gyfer cyfarfodydd preifat. Mae'r darparwr wedi buddsoddi mewn gardd synhwyraidd newydd hygyrch, ac mae'r rheini sy'n dewis yn helpu i blannu potiau. Mae rhaglen gwella barhaus ar waith er mwyn cynnal safonau amgylcheddol da.

Mae'r gwasanaeth yn darparu'r “Cynnig Rhagweithiol” ar gyfer y Gymraeg ac mae cyfran uchel o'r staff yn cyfathrebu yn Gymraeg. Gwelsom fod cofnod o ddewis iaith y bobl yn eu dogfennaeth gofal. Clywsom y bobl yn canu, yn sgwrsio a gweithgareddau Dydd Gŵyl Dewi. Dywedwyd wrthym y gallai dogfennaeth gofal a llenyddiaeth y gwasanaeth gael eu darparu yn Gymraeg ar gais.

Caiff dewisiadau personol eu deall a'u nodi gan y staff. Mae’r bobl a'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses gychwynnol o ddatblygu eu cynlluniau gofal. Er bod adolygiadau o'r gofal yn cael eu cyflawni, nid ydynt yn dangos tystiolaeth o'r canlyniadau nac yn adlewyrchu newidiadau a rôl y bobl yn yr adolygiadau.

Mae systemau ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Mae ystod o bolisïau cyfredol yn amlinellu ac yn atgyfnerthu arferion gofal cadarnhaol. Mae'r staff gofal yn ymgymryd â hyfforddiant ar ddiogelu ac maent yn deall eu cyfrifoldebau ynghylch rhoi gwybod am bryderon. Mae'r broses recriwtio yn cefnogi recriwtio staff yn ddiogel. Mae cyfleoedd hyfforddiant parhaus yn sicrhau bod y staff yn ddigon medrus i gyflawni eu dyletswyddau. Caiff y bobl eu diogelu rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad gan fod yn rhaid i ymwelwyr ganu cloch y drws ffrynt er mwyn dod i mewn, yn ogystal â chofnodi eu hymweliad yn y llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael.

## Gofal a Chymorth

Mae gan y bobl gydberthnasau da â'r staff gofal. Gwelsom y staff gofal yn rhyngweithio â'r bobl mewn modd caredig a chyfeillgar. Mae'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn adnabod y bobl maent yn rhoi cymorth iddynt yn dda ac yn gyfarwydd â'u hanghenion a'u harferion. Gallant weld newidiadau yn y bobl a gweithredu'n briodol. Mae'r lefelau staffio fel sydd wedi'u dogfennu yn y datganiad o ddiben yn ddigonol i ddiwallu anghenion gofal y bobl mewn modd amserol heb frysio.

Darparodd y bobl adborth cadarnhaol i ni am fyw yng nghartref gofal Brynderwen drwy ddweud *"fantastic", "lovely"* a *"they are so accommodating".* Hefyd cawsom adborth cadarnhaol gan berthnasau a oedd yn ymweld ar ddiwrnod yr arolygiad. Dywedodd un perthynas wrthym *"They provide what was missing."* Mae'r gwaith cynllunio gofal yn seiliedig ar fodel Roper, Logan, a Tierney, fel y nodwyd yn y datganiad o ddiben. Er bod y cynlluniau gofal a chymorth yn cynnwys y wybodaeth berthnasol sydd ei hangen i gefnogi'r bobl, mae'r dogfennau'n ymddangos yn gyffredinol mewn rhai agweddau. Mae'r cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu'n fisol ar hyn o bryd, fodd bynnag nid yw'r rhain yn cofnodi gwybodaeth berthnasol yn gyson a all effeithio ar y gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar bobl. Ers hyn mae'r rheolwr wedi rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru bo gwaith yn mynd rhagddo i adlewyrchu'r maes hwn yn well. Er bod y perthnasau y gwnaethom siarad â nhw wedi dweud eu bod wedi sgwrsio â'r staff i ddarparu mewnwelediadau defnyddiol am eu hanwyliaid, nid oedd yr adolygiadau yn dangos tystiolaeth bod y bobl na'u cynrychiolydd yn cael eu cynnwys. Trafodwyd y materion hyn yn ystod yr arolygiad diwethaf. Er nad yw'r mater yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y bobl, mae hwn yn faes sydd angen ei wella, a chaiff ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

Mae trefniadau diogel ar waith i storio, archebu a rhoi meddyginiaeth sy'n cael ei storio'n ddiogel. Mae siartiau'r cofnodion rhoi meddyginiaeth (MAR) yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen a chânt eu cwblhau'n gywir a'u llofnodi pan fydd meddyginiaeth wedi'i rhoi. Gwelsom dystiolaeth fod y staff yn cael hyfforddiant ar roi meddyginiaeth er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i feddu ar sgiliau digonol. Mae cwblhau archwiliadau meddyginiaeth rheolaidd yn sicrhau bod yr arferion yn parhau'n ddiogel ac yn effeithiol.

Mae'r bobl yn cael y gofal cywir, ar yr adeg gywir. Mae'r cartref yn cydgysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol pan fo angen. Gwelsom fod y gwasanaeth yn monitro iechyd a lles cyffredinol y bobl ac yn gofyn am gymorth meddygol pan fo angen. Caiff pob ymweliad ac apwyntiad eu dogfennu'n ofalus yng nghynlluniau personol y bobl.

## Yr Amgylchedd

Caiff y bobl fudd o ymrwymiad y gwasanaeth i sicrhau arferion diogel. Caiff sylweddau sy'n beryglus i iechyd eu storio'n ddiogel. Mae'r ffeiliau cynnal a chadw yn dangos bod nodweddion cyfleustodau, cyfarpar a diogelwch tân yn cael eu harchwilio a'u gwasanaethu'n rheolaidd a'u bod yn gyfredol. Mae pob ardal a nodwyd gan y gwasanaeth tân roedd angen gweithredu arnynt wedi cael eu cwblhau. Caiff ffeiliau gofal a meddyginiaeth eu cadw dan glo er mwyn sicrhau cyfrinachedd a diogelwch. Mae gan bob person sy'n byw yn y cartref gynllun personol ar gyfer gadael yr adeilad mewn argyfwng sy'n benodol i'w anghenion cymorth.

Mae'r amgylchedd cyffredinol yn gynnes ac yn groesawgar, heb unrhyw arogleuon. Gall y bobl bersonoli eu hystafell gyda lluniau, dodrefn ac eitemau bach i gofio, sy'n helpu i greu naws gartrefol. Dangosodd un person ei ystafell i ni a dweud wrthym *"they have been so accommodating, it feels like my home, they are so good to me."* Arsylwom y staff glanhau oedd ar ddyletswydd drwy gydol y dydd ac mae safon gyffredinol glendid a hylendid y cartref yn ymddangos yn dda. Mae'r gegin a'r cyfleusterau golchi dillad yn addas ar gyfer maint y cartref. Dyfarnwyd sgôr o 5* i'r gegin gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sy'n golygu bod y safonau yn dda iawn. Mae gweithiwr cynnal a chadw dynodedig ar y safle sy'n gweithredu'n brydlon i fynd i'r afael â materion wrth iddynt godi. Mae mynediad at ardal awyr agored fawr a gardd synhwyraidd newydd sydd wedi'i dylunio'n benodol i alluogi mynediad hawdd i gadeiriau olwyn. Mae'r rheini sy'n dymuno hefyd yn cymryd rhan wrth ddewis planhigion a helpu gyda'r potiau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu proses recriwtio ddiogel gan sicrhau bod y cyflogeion yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed. Gwnaethom ddarllen cofnodion yn ymwneud â recriwtio a gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud yr holl wiriadau cyn cyflogi angenrheidiol cyn cynnig contract i ddarpar gyflogeion. Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys geirdaon gan gyflogwyr blaenorol, gwiriadau cyflogaeth hanesyddol a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae ffeiliau'r staff wedi'u trefnu'n dda ac yn hawdd eu dilyn.

Mae gan y darparwr gwasanaeth drefniadau trefniadau llywodraethu sydd ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae'r staff yn cael budd o gyfarfodydd tîm rheolaidd. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn gyfredol ac mae'r gwasanaeth yn rhoi gwybod i bob parti perthnasol am ddigwyddiadau adroddadwy. Mae canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth a datganiad o ddiben cyfredol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn bresennol yn y gwasanaeth yn rheolaidd ac mae ganddo ymwybyddiaeth o arferion ac anghenion parhaus y gwasanaeth. Mae hefyd yn cwblhau cofnodion chwarterol manwl yn seiliedig ar y cymorth a ddarperir ac ar y trefniadau ehangach ar gyfer rhedeg y cartref. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymgysylltu â'r bobl yn ystod ei ymweliadau â'r gwasanaeth a cheisir barn y bobl fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd.

Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio a hyfforddiant rheolaidd ac maent yn teimlo bod ganddynt wybodaeth a sgiliau digonol i gyflawni eu rolau. Mae'r cofnodion goruchwylio/arfarnu y gwelsom a'r adborth a gawsom, yn dangos bod y staff yn cael budd o oruchwyliaeth, ffurfiol unigol. Mae'r sesiynau hyn yn galluogi'r staff i drafod eu llesiant cyffredinol, ymarfer materion, pryderon neu newidiadau i'r gwasanaeth. Mae'r cofnodion hyfforddiant a welsom yn dangos bod pob aelod o'r staff yn cael cyfnod sefydlu a hyfforddiant gloywi i'w helpu i ddarparu'r gefnogaeth orau bosibl. Nodwyd bod yr hyfforddiant sydd ar gael yn mynd tu hwnt i'r lefelau gorfodol. Gwelsom aelod newydd o staff yn cwblhau shifft cysgodi, gwnaethom siarad â nhw a gwelsom eu ffordd dawel o weithredu. Mae'r staff gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel sy'n ofynnol. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth gywir i helpu pobl yn y gwasanaeth.

Mae morâl y staff yn dda ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu harwain gan reolwr a thîm arwain profiadol. Mae'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am weithio yn y gwasanaeth ac yn dweud bod y tîm yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ar y cyfan. Maent yn dweud bod y rheolwr yn hawdd mynd ato, ac yn ymatebol i'r materion sy'n cael eu codi.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 16 | Nid yw'r adolygiadau'n cynnwys unrhyw dystiolaeth o gyflawni nodau/canlyniadau personol, nac yn cynnwys diweddariadau i'r adolygiadau hynny mewn amser real a allai effeithio ar anghenion gofal. Nid oes tystiolaeth i ddangos bod y bobl yn rhan o'u hadolygiadau, na'u cynrychiolwyr, nac yn gwrthod bod yn rhan ohonynt. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/04/2023